Safon Uwch ac UG

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

GORFFENNAF 2019

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	2
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	3
Amcanion asesu	4
Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch.

Dylid cynllunio'r cymhwyster i'w gyflwyno gan ystod o ddarparwyr dysgu, gan gynnwys ysgolion ac addysg bellach.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Gorffennaf 2019 a chânt eu hadolygu yn 2022

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch. Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i alluogi dysgwyr i symud ymlaen i ddilyn cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. I'r cymhwyster hwn, bydd y cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] a *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch*[4] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried

[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/310317---determination-to-restrict/
[3] https://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] hhttps://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/approval-criteria---july-2016/

Fair Access by Design[5] (cyhoeddiad Saesneg yn unig). Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y contract consesiwn a ddyfarnwyd yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol* a'r *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i gynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch nodi bod yn rhaid i holl ddysgwyr wneud y canlynol:

    1.1 ar lefel UG, ymgymryd â'r holl unedau gorfodol (gweler Atodiad A).

    1.2 ar lefel Uwch, ymgymryd â'r holl unedau naill ai ar y llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion neu'r llwybr Gofal Plant (gweler Atodiad A).

2. Rhaid i'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

    2.1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG;

    2.2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG Safon Uwch.

3. Rhaid i gynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch sicrhau'r canlynol:

    3.1 bod yr asesiadau yn adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc i alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;

    3.2 ei fod yn cefnogi dilyniant dysgwyr o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TGAU.

Nodau ac amcanion y pwnc

4. Rhaid i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, chwarae, dysgu a datblygiad. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod:

[5] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

4.1 yn deall y materion moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant;

4.2 yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant;

4.3 yn deall dulliau gofal sy'n rhoi'r plentyn neu'n person yn y canol;

4.4 yn dehongli a gwerthuso damcaniaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, ac yn ystyried sut maent yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau;

4.5 yn nodi'r ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol sy'n cyfrannu at iechyd da, ac esbonio rôl y llywodraeth a gweithwyr proffesiynol o ran hybu a chynnal iechyd da;

4.6 yn gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd, ymchwilio a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

Cynnwys y pwnc

5. Rhaid i gynnwys manyleb Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

6. Rhaid i fanyleb Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch gynnwys yr unedau gorfodol a nodir yn Atodiad A.

7. Rhaid i fanyleb Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch gynnwys:

7.1 yr unedau gorfodol a nodir yn Atodiad A;

7.2 yr unedau gorfodol naill ai ar y llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion neu'r llwybr Gofal Plant a nodir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

8. Bydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch yn cael ei asesu drwy: 50% asesiad mewnol a 50% asesiad allanol.

9. Bydd yr asesiad mewnol:

9.1 ar lefel UG yn cynnwys tasg ymchwiliol;

9.2 ar lefel Uwch yn cynnwys tasg yn gysylltiedig â naill ai lleoliad gofal plant neu leoliad iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion

9.3 yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r llwybr sy'n cael ei ddilyn.

10. Bydd yr asesiad allanol:

10.1 ar lefel UG yn cynnwys arholiad;

10.2 ar lefel Uwch yn cynnwys arholiad ysgrifenedig yn seiliedig ar ddeunyddiau a ryddheir ymlaen llaw;

10.3 yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r llwybr sy'n cael ei ddilyn.

11. Rhaid i'r mathau o gwestiynau, lle y bo'n berthnasol, roi'r cyfle i ddysgwyr roi cymysgedd o atebion byr a hirach.

12. Rhaid i gynlluniau marcio nodi sut mae pob asesiad yn gysylltiedig â'r amcanion asesu.

Amcanion asesu

13. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y manylebau dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Amcan	**Gofynion**	**Pwysoliadau**
AA1	Ar lefel UG: Dangos gwybodaeth am Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant a dealltwriaeth ohonynt. Ar lefel Uwch: dangos gwybodaeth am naill ai Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion **neu** Gofal Plant a dealltwriaeth ohonynt.	O leiaf 25%
AA2	Ar lefel UG: Cymhwyso gwybodaeth am Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant a dealltwriaeth ohonynt. Ar lefel Uwch: cymhwyso gwybodaeth am naill ai Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion **neu** Gofal Plant a dealltwriaeth ohonynt.	O leiaf 20%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal i ddangos dealltwriaeth, gwneud dyfarniadau rhesymegol a llunio casgliadau.	O leiaf 35 %

<u>Rhesymeg ofynnol:</u> wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, bydd angen i'r corff dyfarnu esbonio sut mae pwysoliadau terfynol yr amcanion asesu wedi cael eu penderfynu, a nodi hefyd a fyddant yn rhai penodol dros oes y cymhwyster neu'n amrywio yn ôl y gyfres.

Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo

14. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu:

    14.1 dogfen fanyleb;

    14.2 deunyddiau asesu enghreifftiol;

    14.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) sy'n esbonio'r rhesymeg dros nodweddion cynllunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'r modd y maent yn cyd-fynd â chanfyddiadau *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[6].

Gofynion Rhesymeg

15. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

16. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    16.1 strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    16.2 dull asesiadau mewnol ac allanol o ymdrin â'r cynnwys dros amser;

    16.3 y dull o ddatblygu ac adfywio asesiadau dros amser;

    16.4 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, nifer yr asesiadau, y broses dyrannu marciau a hyd yr asesiadau;

    16.5 sut y caiff yr amcanion asesu eu dehongli, a sut maent yn berthnasol i wahanol gydrannau'r asesiad;

    16.6 cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

[6] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

16.7 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

16.8 y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau yn y cymhwyster.

Gofynion Gweithredol

17. Rhaid i fanyleb y cymhwyster nodi gofynion gweithredol i ganolfannau, gan gynnwys:

17.1 cofrestriadau;

17.2 sicrhau ansawdd, e.e. rheoli tasgau;

17.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A – Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch

Rhaid i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG/Uwch gynnwys y canlynol. Mae hyn yn gwneud 100% o holl gynnwys y cymhwyster.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG

Y cynnwys canlynol fydd cynnwys gorfodol y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TAG UG.

Hybu iechyd a lles	
Meysydd Testun	
1. Diffiniadau a chysyniadau o iechyd a lles.	1.1. Diffiniadau o iechyd a lles. 1.2. Deall modelau o iechyd, anabledd a lles. 1.3. Cysyniadau cyfannol o iechyd a lles a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt.
2. Deall persbectifau ar iechyd, lles a gwytnwch.	2.1. Penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau o ran iechyd a lles. 2.2. Tueddiadau, patrymau a phersbectifau ar iechyd, lles a gwytnwch. 2.3. Deddfwriaeth a strategaethau ar gyfer hybu iechyd da, lles a gwytnwch.
3. Cefnogi a hybu iechyd, lles a gwytnwch yng Nghymru.	3.1. Mesurau ataliol: gyda chefnogaeth dewisiadau o ran ffordd o fyw a strategaethau lleol/cenedlaethol. 3.2. Ffactorau risg y gellir eu haddasu mewn perthynas ag iechyd, lles a gwytnwch. 3.3. Diffiniad o hybu iechyd. 3.4. Dulliau gwahanol o hybu iechyd, lles a gwytnwch. 3.5. Cynlluniau ac ymgyrchoedd y Llywodraeth sy'n cyfrannu at welliannau yn iechyd, lles a gwytnwch y boblogaeth yng Nghymru.

	3.6. Y cyd-destun y mae pobl sy'n ymgymryd â rolau hybu iechyd yn gweithredu o'i fewn a manteision a chyfyngiadau'r rolau hynny.

Cefnogi iechyd, lles a gwytnwch yng Nghymru	
Meysydd Testun	
4. Cefnogi unigolion i gyflawni deilliannau personol.	4.1. Cefnogi unigolion i adnabod cryfderau a chyflawni deilliannau unigol o ran eu hiechyd a'u lles. 4.2. Cefnogi unigolion i adnabod a magu gwytnwch. 4.3. Adnabod ac asesu anghenion unigolion drwy gydol eu hoes. 4.4. Helpu pobl i fesur cynnydd yn erbyn deilliannau.
5. Arferion gweithio o fewn darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.	5.1. Egwyddorion a gwerthoedd craidd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. 5.2. Gofal sy'n canolbwyntio ar y person/plentyn o fewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. 5.3. Ystod o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. 5.4. Adnabod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant ansawdd uchel. 5.5. Gweithio amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth fel nodwedd allweddol o iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.
6. Darpariaeth leol a chenedlaethol.	6.1. Strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. 6.2. Cynaliadwyedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

	6.3. Yr ystod eang o rolau sy'n bodoli, gan gynnwys cyfleoedd gwaith posibl a llwybrau gyrfa posibl yng Nghymru. 6.4. Sut mae darpariaeth yng Nghymru yn wahanol i ddarpariaeth mewn mannau eraill yn y DU.
7. Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion.	7.1. Effaith deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol ar ddarpariaeth ar hawliau darparwyr ac unigolion. 7.2. Dulliau seiliedig ar hawliau o fewn deddfwriaeth ac arfer ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Uwch: Llwybr gofal plant

Persbectifau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc	
Meysydd Testun	
8. Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant.	8.1. Meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol. 8.2. Sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn ymwneud â meysydd datblygiad plant.
9. Pwysigrwydd chwarae mewn dysgu a datblygiad.	9.1. Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae. 9.2. Diben chwarae. 9.3. Camau chwarae. 9.4. Mathau o chwarae.
10. Ymddygiad plant a phobl ifanc.	10.1. Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc. 10.2. Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad positif.

Cefnogi datblygiad, iechyd, lles a gwytnwch plant a phobl ifanc	
Meysydd Testun	
11. Anghenion plant a phobl ifanc.	11.1. Pwysigrwydd diwallu anghenion corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc ar bob cam datblygu. 11.2. Mathau o drawsnewidiadau, profiadau a newidiadau bywyd a all effeithio ar wytnwch a datblygiad plant a phobl ifanc. 11.3. Deall ac ymateb i anghenion iechyd a gofal cymhleth plant a phobl ifanc. 11.4. Y mathau o asesiadau a diben hynny o ran darparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc.

12. Materion cyfoes o ran darparu gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc.	12.1. Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant. 12.2. Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar ofal plant. 12.3. Natur newidiol darpariaeth gofal plant a'r goblygiadau i'r gweithlu. 12.4. Rôl deddfwriaeth a chynlluniau cyfredol y llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Uwch: Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Persbectifau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion	
Meysydd Testun	
13. Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion.	13.1. Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion. 13.2. Pwysigrwydd ac effeithiau gwytnwch wrth ddelio gyda lleoliadau a sefyllfaoedd gofal. 13.3. Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad positif. Strategaethau i hybu patrymau ymddygiad positif a sut i ddelio ag ymddygiad sy'n herio mewn oedolion.
14. Deall persbectifau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion.	14.1. Y damcaniaethau allweddol sy'n gysylltiedig â deall a rheoli ymddygiadau penodol. 14.2. Dulliau allweddol ar waith, sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion.

Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, lles a gwytnwch	
Meysydd Testun	
15. Anghenion gofal a chefnogi oedolion.	15.1. Pwysigrwydd darparu gofal a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau ac sy'n gwireddu anghenion unigolion yn unol â gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. 15.2. Rhwystrau y gellid eu profi gan unigolion sydd arnynt angen cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion penodol. 15.3. Trawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, gan gynnwys gofal diwedd oes ac anghenion gofal cymhleth.

	15.4. Y mathau o asesiadau a diben hynny o ran darparu cefnogaeth briodol ac amserol i oedolion.
16. Materion cyfoes o ran darparu gofal a chefnogaeth i oedolion.	16.1. Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol. 16.2. Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol. 16.3. Natur newidiol darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau i'r gweithlu. 16.4. Rôl deddfwriaeth a chynlluniau cyfredol y llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chefnogaeth i oedolion sy'n agored i niwed yng Nghymru.